

Taflen Weithgaredd
3

BLYCHAU NYTHU NATURIOL

(a sut i'w hadeiladu)

Gadewch imni helpu rhagor o adar i oroesi drwy adeiladau cartrefi iddyn nhw!

Cyn ichi ddechrau, gwnewch gynllun fel y gallwch sylwi ar ba adar sy'n ymweld â'ch gardd ar hyn o bryd, ac ystyriwch bwy yn union fyddai'n defnyddio eich blwch nythu orau.


BYDD ANGEN...

- Pren garw 15mm ei drwch, 120mm ei led ac oddeutu 1350mm ei hyd, sy'n gallu gwrthsefyll pob tywydd.
- Morthwyl a hoelion wedi'u galfaneiddio.
- Darn o hen rwber neu ledr oddeutu 120mm x 230mm ei faint
- Darnau dril i ddrilio tyllau.
- Clicied i agor a chau'r caead.
- Weiren neu neilon i glymu'r blwch wrth goeden neu wal.





1 Y GWAELOD

Torrwch siâp sgwâr yn gyntaf i greu'r gwaelod: 120mm ar bob ochr, yr un hyd. Driliwch dwll draenio bach i atal y blwch rhag mynd yn llaith.




2 Y CEFN

Nesaf, torrwch siâp hirsgwar i greu'r cefn: 150mm ei led a 300mm ei uchder. Rhowch y cefn yn sownd wrth y gwaelod â hoelion.




3 YR OCHRAU

Torrwch y darnau ochr nesaf. Dylai'r siâp fod ar ogwydd: 150mm ar draws y gwaelod, 200mm i fyny'r ochr flaen a 250mm i fyny'r cefn. Defnyddiwch yr un dimensiynau i dorri'r ochr arall. Rhowch y ddwy ochr yn sownd wrth y gwaelod a'r cefn â hoelion. Rhowch lygad y glicied yn sownd wrth un ochr yn agos at y top.




4 FY BLAEN

Torrwch siâp hirsgwar blaen. 150mm ei led a 200mm ei uchder. Driliwch dwll mynediad 125mm oddi ar y llawr - 25mm ar gyfer titwod tomos las, titwod penddu a thitwod y gors; 28mm ar gyfer golfanod y coed a thitwod mawr; 32mm ar gyfer adar y to a chnocellod y cnau. Rhowch y blaen yn sownd wrth y gwaelod a'r ochrau â hoelion.



5 Y TO

Torrwch siâp hirsgwar i greu'r to: 150mm ei led a 210mm ei uchder. Rhowch y to ar ben y blwch a rhowch y rwber yn sownd wrth y to a'r cefn â hoelion (i greu colyn fel y gall y to agor a chau). Rhowch fachyn y glicied yn sownd wrth y to (ar yr un lefel â'r llygad y gwnaethoch ei hoelio'n sownd wrth yr ochr).



6 LLEOLIAD

Rhowch eich blwch yn sownd wrth goeden neu wal (gan ddefnyddio clymau neilon neu weiren ar gyfer coed) oddeutu 2-4 metr i fyny o'r gwaelod a sicrhewch nad oes dim yn ei rwystru o'i flaen (er mwyn i'r adar allu hedfan yn uniongyrchol i mewn i'r blwch). Dylech addasu'r clymau neu'r weiren wrth i'r goeden dyfu. Osgowch olau haul uniongyrchol a wynebwyh y blwch tua'r gogledd a'r dwyrain.

Bydd adar yn archwilio blychau nythu ym misoedd Chwefror a Mawrth. Cadwch lygad ar y blwch i weld a yw'r adar yn taro heibio. Peidiwch byth â chyffwrdd yn yr wyau neu darfu ar nyth gan ei bod yn hawdd rhoi braw i adar ac fe allen nhw adael y nyth yn llwyr! Gallwch lanhau'r blychau yn yr hydref ar ôl i'r adar nythu ymadael.

Mwynhewch yr adeiladu!

*Ffynhonnell RSPB